# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Ionawr 2025 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (cadeirydd)<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (ADHB)<br>Nichola Salter, CNC<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Catherine Osborne, Llywodraeth Cymru<br>Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Marc Williams, CNC<br>Ruth Johnston, CNC<br>Gemma Haines, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Kate Snow, United Utilities<br>Elen G. Richards, CNC |
| **Hefyd yn bresennol:** | Sarah Brett<br>Gail Pearce-Taylor<br>Ieuan Davies<br>Dr Susannah Bolton |
| **Ymddiheuriadau:** | Michelle Griffiths, CNC<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Delyth Lewis-Jones, AHDB |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (aelod o fwrdd CNC a chadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol) bawb i’r cyfarfod Microsoft Teams a

nodwyd yr ymddiheuriadau ganddo. Croesawodd Rhys gynrychiolwyr o fyrddau rheoli maethynnau afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig i'r cyfarfod.

2. Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion llunio'r cofnodion ac y câi'r ffeil ddigidol ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.

   - NODER: Mae holl aelodau'r grŵp eisoes wedi cwblhau ffurflenni datgan buddiannau ond nodwyd y dylent hefyd wneud datganiad pe bai ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygu cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys y câi cofnodion y cyfarfod eu cyhoeddi ar wefan CNC ar ôl i'r grŵp eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol fel eu bod ar gael i'r cyhoedd. Nododd ei bod yn bwysig felly bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion blaenorol y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2024. Nododd Rhys y bydd gwybodaeth atodol ynghylch dadansoddiad o gymorth buddsoddi Llywodraeth Cymru o £52 miliwn yn cael ei chynnwys yng nghofnodion mis Rhagfyr – darparwyd tabl gan Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

6. Rhannodd Bronwen y cofnod o'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd a rhoddwyd diweddariadau ar lafar yn eu cylch pan fu modd.

## Eitem 3. Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig

7. Dosbarthwyd copi o Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) i'r grŵp cyn y cyfarfod. Gwahoddwyd cynrychiolwyr o fyrddau rheoli maethynnau afonydd ACA i'r cyfarfod i drafod yr adroddiad, yr argymhellion dilynol, a sut y gallai'r adroddiad helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau rheoli maethynnau ar gyfer y dalgylchoedd ACA. Anogwyd y grŵp i ddefnyddio'r cyfle hwn i nodi pwy a all fwrw ymlaen / sut y gellir bwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion.

8. Rhoddodd Rhys gefndir byr a throsolwg o'r amserlen. Comisiynwyd grŵp gorchwyl a gorffen, gyda mewnbwn o'r uwchgynhadledd ansawdd dŵr, i archwilio'r mater o ffosfforws yn afonydd ACA. Fel is-grŵp, trafodwyd yr adroddiad yn fanwl ym mis Mehefin 2024 ac rydym wedi bod yn archwilio ffyrdd y gellir hyrwyddo'r adroddiad, ond mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y gellid cyflawni hynny. Cynhaliwyd cyfarfod defnyddiol iawn ddiwedd yr hydref gyda chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru lle cawsom adborth ar yr adroddiad a sut y gallem geisio cyflawni cymaint o effaith â phosibl ar sail argymhellion yr adroddiad. Un awgrym oedd y dylem geisio ymgysylltu â'r byrddau rheoli maethynnau, yn enwedig gan eu bod yn datblygu cynlluniau rheoli maethynnau, ac efallai y gallai'r argymhellion gyfrannu at y broses. Trafodwyd hefyd y posibilrwydd o ganolbwyntio ar nifer llai o argymhellion a gwneud penderfyniadau fel is-grŵp ar y canlynol:

   - Pa rai sydd fwyaf cyraeddadwy?

- Pa rai sydd fwyaf arwyddocaol?
- A allem ddarparu mwy o fanylion ynghylch sut y gallai sefydliadau penodol ddatblygu'r argymhellion hynny i'r cam nesaf.
- Beth fyddai'r amserlen?
- Pa gyllid fyddai ei angen er mwyn cyflawni'r argymhellion hynny?
- Beth yw'r canlyniadau?
- Beth yw'r canlyniadau anfwriadol?

9. Awgrymodd Rhys fod dau linyn i'r sgwrs heddiw. Y cyntaf yw ymgysylltu â chynrychiolwyr o'r byrddau rheoli maethynnau, i glywed mwy am eu cynlluniau ac a oes rhai synergeddau posibl rhwng y cynlluniau ac argymhellion yr adroddiad. Yr ail linyn yw trafodaeth grŵp ynghylch yr argymhellion a sut y gellid eu gweithredu.

10. Rhoddodd David Ball, AHDB, gyd-destun ynghylch datblygu ac ysgrifennu'r adroddiad. Sefydlwyd Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gan y grŵp hwn, Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol. Comisiynwyd y grŵp gorchwyl a gorffen i ymchwilio i wybodaeth, tystiolaeth a gwyddoniaeth gyfredol ynghylch problemau ffosffadau yn afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac yn fwy cyffredinol mewn cyrsiau dŵr yng Nghymru. Cynhaliodd y grŵp nifer o gyfarfodydd a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o sectorau allweddol yn y diwydiant amaethyddol, ynghyd ag arbenigwyr yn eu meysydd. Fe wnaethant archwilio a mesur rôl ffosffadau yn yr amgylchedd ac afonydd ac edrych ar y fframwaith rheoleiddio presennol ac a oedd angen ei wella. Bwriadwyd i'r adroddiad fod yn fan cychwyn i helpu i lywio trafodaethau a chynnydd yn y dyfodol yn y maes hwn ac awgrymu sail ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol – mae is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru, y byrddau rheoli maethynnau a Llywodraeth Cymru oll yn allweddol i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r gofynion hyn.

11. Mae'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad wedi'u categoreiddio o dan benawdau penodol, gan gynnwys cyngor ac arweiniad, cymorth ariannol, rheoliadau, data a thystiolaeth, ac ymchwil ac arloesedd. Mae'r grŵp hwn eisoes wedi trafod yr adroddiad ac wedi crynhoi'r argymhellion, ac efallai mai'r cam nesaf yw nodi dau neu dri argymhelliad yr ydym yn teimlo sy'n hanfodol i ganolbwyntio arnynt. Dywedodd David y byddai'n ddiddorol clywed beth yw barn cynrychiolwyr y byrddau rheoli maethynnau am yr adroddiad a'r argymhellion ac a allant eu helpu i lywio eu cynlluniau rheoli maethynnau.

12. Esboniodd Gail Pearce-Taylor y sefydlwyd y byrddau rheoli maethynnau ledled Cymru mewn dalgylchoedd afonydd ACA sy'n methu neu bron â methu. Er hynny, mae Bannau Brycheiniog wedi ffurfio dull tebyg o reoli maethynnau yn y Parc Cenedlaethol ond sy'n canolbwyntio mwy ar y dalgylch. Rydym yn agosáu at ddiwedd cronfa ariannu tair blynedd, a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru (yn dod i ben ym mis Mawrth 2025). Fe'n comisiynwyd i sefydlu'r byrddau rheoli maethynnau fel partneriaeth gydweithredol i gydnabod na all unrhyw sefydliad sengl ddatrys y mater cymhleth hwn. Rydym wedi llywodraethu, ymgysylltu a chasglu tystiolaeth hynod fanwl ar gyfer y cynlluniau rheoli maethynnau ar sail y dalgylch. Bwriad y cynlluniau hynny yw cyflawni dau nod. Y nod cyntaf yw caniatáu i ddatblygiad fynd rhagddo yn y dalgylchoedd hynny sy'n methu (e.e. datblygiadau niwtral o ran maethynnau) a gwella cyflwr yr afonydd ACA hynny.

13. Un o'r pethau cyntaf a wnaethom yng Ngorllewin Cymru oedd creu cyfrifiannell maethynnau er mwyn gwybod faint o effaith mae datblygiad yn ei chael. Mae hynny'n

caniatáu inni gyflawni'r nod cyntaf – gall datblygwyr yn yr ardal hon gyfrifo effaith eu datblygiad yn gywir, ac mae hynny wedi helpu i ddiogelu cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, ac mae hefyd yn helpu i warchod yr iaith Gymraeg yno. Rydym hefyd wedi cynhyrchu llawer mwy o adnoddau ar gyfer datblygwyr, defnyddwyr tir, dinasyddion wyddonwyr, ffermwyr a thirfeddianwyr, gan gynnwys cyfarwyddiadau a chanllawiau lliniaru, ac rydym hefyd wedi cyflogi ecolegydd niwtraliaeth maethynnau.

14. Er mwyn cyflawni'r ail nod o geisio gwella cyflwr afonydd ACA, rydym wedi nodi ymyriadau ar raddfa tirwedd sy'n addas ar sail safle-benodol. Er nad yw CNC yn caniatáu defnyddio hyn ar gyfer niwtraliaeth maethynnau, bydd, serch hynny, yn helpu i adfer cyflwr yr afonydd. Roedd bylchau yn yr adroddiad cydymffurfio yn broblem ac yn rhwystr i wneud penderfyniadau gwybodus; o ganlyniad, rydym wedi datblygu prosiect monitro sy'n defnyddio technoleg arloesol (e.e. LoRaWAN a lloerennau) i fonitro ansawdd dŵr afonydd. Rydym wedi creu gwefan ar gyfer byrddau rheoli maethynnau a data ffynhonnell agored system gwybodaeth ddaearyddol a fydd, gobeithio, ar gael i'r cyhoedd ddiwedd y mis hwn.

15. Yng ne-orllewin Cymru ar gyfer dalgylchoedd Tywi, Teifi a Cleddau, bydd ein cynlluniau rheoli maethynnau wedi'u cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Bydd adroddiad ar gyfer afon Dyfrdwy hefyd a bydd gan bartneriaeth dalgylch Gwy ac Wysg adroddiad yn seiliedig ar y dalgylch i'w gyflwyno erbyn hynny.

16. Mae'r cynlluniau rheoli maethynnau yn ddogfennau byw, a byddwn yn parhau i'w diweddaru. Bydd sawl adroddiad yn cael ei gyhoeddi'n fuan a fydd, mae'n debyg, yn arwain at newidiadau sylweddol i'r cynlluniau rheoli maethynnau, gan gynnwys adroddiad cydymffurfio diweddaraf CNC. Efallai y bydd angen i ni wneud rhai diwygiadau allweddol i'r cynlluniau rheoli maethynnau hefyd o ganlyniad i ddadansoddiad manylach o amaethyddiaeth gan CNC a'r adolygiad o drwyddedau a ddaeth yn sgil y sefyllfa yn nalgylch afon Dyfrdwy.

17. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi gofyn i ni sut olwg yr hoffem fod ar y byrddau rheoli maethynnau yn y dyfodol. Bydd hyn yn wahanol ar gyfer pob dalgylch, ond ar gyfer dalgylchoedd Tywi, Teifi a Cleddau, rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ganolbwyntio ar ddwy thema allweddol – cyllid natur (sut allwn ni ysgogi buddsoddiad mewn ffordd sy'n gynhwysol iawn ac yn cael ei chefnogi gan gymunedau) a newid i ddull sy'n fwy seiliedig ar ddalgylchoedd a dilyn esiampl Bannau Brycheiniog i gynnwys agweddau eraill megis iechyd, llifogydd, sero net, budd net i fioamrywiaeth ac ati. Mae yna lawer o resymau dros newid i ddull sy'n fwy seiliedig ar ddalgylchoedd, ond, yn bwysicaf oll, mae edrych ar ffosffad yn unigol yn wirioneddol annymunol ac yn ddiangen.

18. Diolchodd Gail i'r grŵp am rannu copi o'r adroddiad gyda chynrychiolwyr o'r byrddau rheoli maethynnau a dywedodd nad oedd hi'n ymwybodol bod grŵp amaethyddol yn edrych ar hyn. Dywedodd Gail y byddai'r byrddau rheoli maethynnau yn croesawu unrhyw ymrwymiad agosach, naill ai â'r grŵp gorchwyl a gorffen amaethyddol neu is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru.

19. O ran yr adroddiad, roedd yr argymhelliad cyntaf yn canolbwyntio ar gyngor ac arweiniad. Mae'r byrddau rheoli maethynnau yn gwneud yr hyn sy'n bosibl yn y maes hwnnw. Rydym wedi ymgymryd â rhai prosiectau unigol megis prosiect o'r enw Lleihau a Lliniaru Ffosffadau a oedd ar waith yn nalgylch afon Teifi. Roedd hynny'n golygu mynd i ffermydd bach yn bennaf, sy'n nodweddiadol yn ein hardaloedd gwledig, a rhoi cyngor diduedd iddynt. Roedd hynny'n hynod fuddiol ac yn rhywbeth a groesawyd ac

yn aml yn cynnwys ymyriadau syml megis atgyweirio gwteri wedi torri neu ddargyfeirio draeniau o'r buarth. Roedd gennym ychydig o arian wedi'i neilltuo ar gyfer buddsoddiad cyfalaf i dalu am y gwaith hwnnw. Roedd yn berthynas a oedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a cheisio gwneud gwelliannau. Mae gennym grŵp gwaith amaethyddol hefyd, ond rydym ni'n ei chael yn anodd denu ffermwyr a rheolwyr tir go iawn i'r grwpiau hynny – mae'n gyfnod anodd iawn i ffermwyr ar hyn o bryd ac mae angen iddynt wybod ei fod yn amgylchedd y gallant ymddiried ynddo.

20. O ran yr argymhellion ar gymorth ariannol a rheoliadau, ni fyddai'r byrddau rheoli maethynnau yn anghytuno â'r rheini, ond mae ein gallu i fwrw ymlaen â'r rheini, ar wahân i eiriolaeth i Lywodraeth Cymru, yn gyfyngedig iawn.

21. O ran data a thystiolaeth, rydym yn gwneud yr hyn sy'n bosibl, megis monitro yn yr afonydd. Rydym wedi cynhyrchu llawer o haenau risg a dŵr ffo ar systemau gwybodaeth ddaearyddol, ond ni allwn gael mynediad at ddata Llywodraeth Cymru na data a gedwir gan ffermwyr yr ydym yn gwybod a fyddai'n ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau yn y dalgylch.

22. Awgrymodd Gail y gallai'r set derfynol o argymhellion ar ymchwil ac arloesi fod wedi bod yn fwy beiddgar. Mae hon yn her ddifrifol i ffermwyr a'r amgylchedd ac efallai fod cyfleoedd ar gael, megis arallgyfeirio ffermydd a'r economi gylchol. Efallai y gallai'r argymhelliad hwnnw edrych yn fanylach ar ddulliau sy'n cael eu hysgogi gan y farchnad a sut y gellid cefnogi ffermwyr.

23. Yn gyffredinol, dywedodd Gail fod byrddau rheoli maethynnau yn cefnogi'r adroddiad, ond mae yna gyfyngiad ar yr hyn y gallwn ei wneud.

24. Mae Ieuan Davies yn cynrychioli Bannau Brycheiniog a Phartneriaeth Dalgylch Wysg. Yn ddiweddar, ymgymerodd â rôl rheolwr prosiect y bartneriaeth. Mae llawer o'r canlyniadau y mae Gail wedi'u trafod yn gorgyffwrdd ac mae peth tebygrwydd rhyngddynt. Fodd bynnag, fe aethom ati mewn ffordd ychydig yn wahanol drwy ddatblygu'r bartneriaeth ehangach. Roedd bwrw ymlaen â hynny yn flaenoriaeth ynghyd ag ymgorffori'r ffordd honno o weithio i geisio ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl. Mae gennym eisoes bartneriaid gweithredol iawn o fewn y bartneriaeth – er enghraifft Sefydliad Gwy ac Wysg – sydd eisoes wedi'u hymgorffori yn y gymuned amaethyddol yn nalgylch afon Wysg. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Grŵp Dŵr y Bannau, sef grŵp o ffermwyr sy'n gweithredu ac yn cyflawni rhai o allbynnau lliniaru Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp hwn yn estyn allan yn weithredol at y gymuned ffermio i ymgysylltu â mwy o ffermwyr gweithredol.

25. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gydag Atkins i ddatblygu porth system gwybodaeth ddaearyddol, a fydd yn ffurfio prif ran y cynllun rheoli maethynnau. Byddant wedi datblygu drafft terfynol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yr offeryn hwn yn caniatáu inni edrych ar yr ardaloedd risg uchel ac edrych ar yr opsiynau lliniaru perthnasol sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd risg uchel hynny. Bydd hyn yn ein helpu i gynnal sgyrsiau cynnar gyda thirfeddianwyr a chydweithio gyda nhw i gyflawni ymyriadau.

26. Soniodd Ieuan ei fod wedi gweithio ar adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, fel yr ysgrifennydd wrth weithio i CNC ar y pryd. Roedd yn adroddiad diddorol iawn i weithio arno ac roedd y grŵp wedi adolygu llawer iawn o dystiolaeth.

27. Mae Bannau Brycheiniog a Phartneriaeth Dalgylch Wysg hefyd wedi trafod yr elfen o gydbwysedd ffosffad fel techneg ddefnyddiadwy wirioneddol y gall ffermwyr ei mabwysiadu a'i hystyried fel rhan o'u gwaith cynllunio rheoli maethynnau eu hunain yn eu busnesau fferm. Mae cyngor ac arweiniad yn rhan arbennig o bwysig o sut y gellir cyflwyno pethau.

28. O ran data a thystiolaeth, rydym wedi cynhyrchu adroddiad sydd wedi coladu tystiolaeth ar gyfer dalgylch afon Wysg. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn tynnu sylw at sawl bwlch yn y dystiolaeth y byddwn yn edrych ar fynd i'r afael â nhw. Roedd ein hadroddiad yn trafod newid mewn ymddygiad hefyd, ac rydym yn gweithio gyda gwahanol rannau o'r gymuned i ddeall eu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol.

29. O ran ymchwil ac arloesi, mae hyn eisoes yn digwydd o fewn ein dalgylch oherwydd sefydliadau megis Sefydliad Gwy ac Wysg a gwaith Grŵp Dŵr y Bannau a'r 'mega-ddalgylch'. Rydym yn ffodus ein bod yn gallu cysylltu â'r gwaith hwn sy'n bodoli eisoes.

30. Cofiodd Dennis fod Gail wedi dweud nad ffosffad fyddai'r unig faethyn a fyddai'r byrddau rheoli maethynnau yn edrych arno, a gofynnodd beth yw cysylltiad Uwchgynhadledd Ffosffad y Prif Weinidog, o dan gadeiryddiaeth Mark Drakeford, â'r gwaith hwn. Eglurodd Catherine Osborne, Llywodraeth Cymru, fod Mark Drakeford wedi sefydlu'r Uwchgynhadledd Ffosffad yn wreiddiol ar gyfer afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ym mis Gorffennaf 2022, gyda'r bwriad o ddatgloi materion tai a datblygiad a oedd o ganlyniad i ffosffadau. Mae proses yr uwchgynhadledd yn cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd, ac mae bwriad posibl i ehangu'r maes o ddiddordeb drwy edrych ar ansawdd dŵr yn gyffredinol yn ogystal â ffosffad. Mae ein Dirprwy Brif Weinidog presennol yn canolbwyntio'n wirioneddol ar gyflawni ac ar weithgareddau, ac mae llawer o waith yn mynd rhagddo y tu ôl i'r llen. Os bydd yr uwchgynadleddau'n parhau, yna mae'n debygol y byddant yn creu mecanwaith lle gall uwch-randdeiliaid ymrwymo i gamau gweithredu, yn hytrach na chynnal siop siarad. O ran y byrddau rheoli maethynnau, nhw yw'r arbenigwyr rhanbarthol ac mae'r bobl gywir yn rhan o'r grwpiau hynny. Cyfarfu'r byrddau rheoli maethynnau â'n Dirprwy Brif Weinidog presennol ym mis Tachwedd, a'r cylch gwaith oedd cyflwyno achos busnes iddo a oedd yn nodi sut y bydd y gweithgareddau y maent yn gofyn am gyllid ar eu cyfer yn cyflawni allbynnau a fydd yn arwain at ganlyniadau yn y pen draw. Gofynnodd y Dirprwy Brif Weinidog i'r byrddau rheoli maethynnau fod yn hunan-gyllidol yn rhannol o hyn ymlaen. Trafododd Catherine yr elfen reoleiddio, a dywedodd, os yw'r byrddau rheoli maethynnau eisiau newid rheoleiddiol, yna mae Llywodraeth Cymru am iddynt ddarparu ceisiadau wedi'u datblygu'n llawn. Yn ogystal â hyn, os oes angen ychwanegu unrhyw beth at y rhaglen nesaf ar gyfer y llywodraeth, mae hwn yn gyfle gwych i wneud hynny.

31. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, fod y gwaith llywodraethu ar ffosffadau gyda'r amrywiol uwchgynadleddau, y byrddau rheoli maethynnau, y grwpiau eraill ac ati wedi bod yn gymhleth iawn, ac efallai nad yw wedi'i ddatrys yn llwyr (e.e. pwy sy'n gwneud beth ac ar ba lefel). Mae hon yn ystyriaeth wirioneddol bwysig wrth i ni symud ymlaen. Mae angen i ni ddeall pryd yw'r amser gorau i godi rhai materion. Mae angen inni hefyd gydnabod y dirwedd bolisi bresennol. Yn sicr i ffermwyr, mae Cynllun Ffermio Cynaliadwy'r dyfodol yn un o'r ysgogiadau allweddol hynny i gefnogi'r diwydiant a gyrru'r newid yr ydym am ei weld. Nid yw hyn o reidrwydd yn rhywbeth y mae angen i'r byrddau rheoli maethynnau na'r Uwchgynhadledd Ffosffad ei ystyried yn fanwl, ond mae angen eglurder arnom ynghylch y llywodraethu, y gwahanol grwpiau, a phwy sy'n gwneud beth. Cofiodd Rhys drafodaethau blaenorol am yr angen am siart

sefydliadol i nodi'n glir y berthynas rhwng gwahanol sefydliadau a grwpiau sy'n gweithredu yn y maes hwn, a sut maent yn ymwneud â'i gilydd yn dechnegol. Soniodd Marc Williams, CNC, ei fod wedi dechrau tynnu sylw at y cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau megis y byrddau rheoli maethynnau, Fforwm Rheoli Dŵr Cymru a'r grŵp hwn. Fodd bynnag, ni fwriwyd ymlaen ag ef oherwydd ei gymhlethdod. Awgrymodd Marc y gallai ailedrych ar hyn, ond mae'r amserlen yn anodd gan fod Prosiect Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn dod i ben ym mis Mawrth 2025. Cydnabu Rhys fod llawer o waith i'w wneud cyn diwedd mis Mawrth, yn ôl pob tebyg, ac awgrymodd nad oes brys ar gyfer y siart sefydliadol.

***AP 20 Ionawr 01: Marc Williams, CNC, i edrych ar greu siart sefydliadol i nodi'n glir y berthynas rhwng gwahanol sefydliadau a grwpiau sy'n gweithio ar faterion ffosffad yn afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.***

32. Dangosodd Catherine strwythur mewnol Llywodraeth Cymru i'r grŵp i roi syniad iddynt ble mae'r cysylltiadau rhwng y gwahanol adrannau.

33. Cyflwynodd Jon Goldsworthy, CNC, ei hun fel rheolwr Prosiect Dalgylch Arddangos Teifi. Cytunodd Jon fod y maes yn gymhleth iawn. Byddai unrhyw beth y gall Llywodraeth Cymru ei wneud i symleiddio'r gwaith llywodraethu yn ddefnyddiol iawn, ond mae'r ffaith bod cymaint o ddiddordeb yn y maes gwaith hwn hefyd yn darparu cyfle. O ran Prosiect Dalgych Arddangos Teifi, rydym yn ceisio creu cysylltiad â grwpiau presennol megis hwn a strwythur y byrddau rheoli maethynnau fel nad ydym yn dyblygu gwaith, ond yn hytrach yn ceisio ychwanegu gwerth a bwrw ymlaen â rhai meysydd gwaith ar ffurf prosiect dalgylch. Diben prosiect Teifi oedd rhoi cynnig ar bethau newydd, megis ffyrdd arloesol o weithio a rheoleiddio neu atebion ar sail natur. Rydym wedi wynebu rhai rhwystrau ar y ffordd, ond rydym yn gwneud ein gorau i geisio eu gwaredu. Un o'r prif heriau yw cyllid, felly rydym yn ceisio edrych ar gyllid amgen, ac mae dau gais yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, un ar gyfer arian arloesi Ofwat a'r llall gan y loteri. Dywedodd Jon ei fod wedi darllen yr adroddiad gyda diddordeb ac wedi archwilio sut y gellid rhoi'r argymhellion ar waith yn ein plith. Yn sicr, efallai y byddwn eisiau cynnwys rhai agweddau o'r adroddiad hwn a'r argymhellion yn ein cais am gyllid ar gyfer prosiect Teifi, o ran treialu o fewn y dalgylch, gwella setiau data, y cymorth ariannol, ac elfennau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio hefyd o bosibl.

34. Dywedodd Gail fod maethynnau mor gymhleth ac yn effeithio ar gynllunio, amaethyddiaeth, bioamrywiaeth, dŵr, a chynifer o ganghennau gwahanol o wahanol sefydliadau llywodraethol ac anllywodraethol. Dyna un o'r rhwystrau yr ydym wedi'u cael wrth ddatblygu'r cynlluniau, yn enwedig o ran deall bod y grwpiau perthnasol yn cael trafodaethau, fel yr un yma. Mae hefyd yn anodd gwybod pa ymyriadau ar gyfer pa ganlyniadau sy'n cael eu gweithredu yn y dalgylchoedd. Mae'r byrddau rheoli maethynnau yn ei ddefnyddio fel cyfle i siarad am ba gamau gweithredu cyfannol y mae angen eu hystyried, felly bydd camau gweithredu Llywodraeth Cymru ac amrywiol bobl yn edrych ar wahanol ffyrdd o weithio. Cynigiodd Gail y gallai drefnu sgwrs ar wahân gyda Catherine i drafod y strwythur ymhellach.

35. Nododd David fod Gail wedi sôn eu bod yn ymweld â ffermydd i roi cyngor diduedd iddynt a bod hynny'n cael ei groesawu. Dywedodd David ei bod yn braf clywed bod y cyngor wedi cael ei groesawu, ac mae'n debyg ei fod yn ategu'r hyn sydd ar gael trwy sefydliadau megis Cyswllt Ffermio. Cofiodd David fod y byrddau rheoli maethynnau yn tynnu at derfyn eu rhaglen ariannu tair blynedd, a gofynnodd beth fydd yn digwydd nesaf. Atgoffodd Gail y grŵp fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn iddynt gyflwyno

manylion am yr hyn yr hoffem ei wneud yn y dyfodol, sut olwg y gallai fod ar y byrddau rheoli maethynnau, a sut y gallant gynnig y gwerth gorau am arian. Rydym yn dibynnu ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hynny, ond rydym hefyd yn chwilio am ffynonellau cyllid eraill, a dyna un o'r rhesymau pam ein bod yn edrych ar gyllid natur – sut allwn ni ddechrau llenwi'r diffyg mewn atebion ar sail natur yng Nghymru mewn ffordd sy'n gweithio i'r amgylchedd a chymunedau. Rydym yn gwbl ddibynnol ar gyllid, ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn ystod y tair blynedd diwethaf. Rydym yn casglu tystiolaeth ac yn rhoi cynlluniau at ei gilydd ac yn awyddus i fynd allan a gwneud mwy o ymyriadau ymarferol megis yr ymweliadau fferm, plannu lleiniau clustogi, neu hyd yn oed ymyriadau ar raddfa fwy megis gwlypdiroedd. Fodd bynnag, mae angen yr ymyrraeth gywir yn y lle cywir arnom. Dywedodd David mai un o'r argymhellion allweddol yn yr adroddiad o dan y pennawd cyngor ac arweiniad yw bod cyllid ar gael i Cyswllt Ffermio a/neu sefydliad arall i ddarparu'r cyngor a'r arweiniad. Gobeithio bod yr hyn y mae'r byrddau rheoli maethynnau yn ei wneud yn ategu'r gwaith y mae Cyswllt Ffermio yn ei wneud yn hytrach na'i ddyblygu. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru ystyried dull ariannu cydlynol.

36. Cofiodd David sylwadau cynharach a oedd yn awgrymu y gallai elfen ymchwil ac arloesi'r adroddiad fod wedi bod yn fwy beiddgar. Eglurodd David fod y grŵp gorchwyl a gorffen wedi cael trafferth gyda hyn a'u bod wedi cael peth dadl ynghylch pa mor chwyldroadol y dylai rhai o'r argymhellion fod. Codwyd y pynciau arallgyfeirio a dulliau sy'n cael eu gyrru gan y farchnad yn gynharach, a gofynnodd David i Gail ymhelaethu ar hynny. Dywedodd Gail fod angen agronomegydd neu arbenigwr amaethyddol i ateb yn llawn, ond mae'n ymddangos bod gennym ormodedd o faethynnau yn nalgylchoedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a phrinder mewn dalgylchoedd eraill. Mae'n chwerthinllyd ein bod yn mewnforio ffosffad craig fel gwrtaith (nad yw'n gynaliadwy ac sydd ag ôl troed carbon enfawr) a ninnau â gormodedd ohono mewn rhai ardaloedd o Gymru. Mae'r adroddiad yn cyfeirio llawer at y gwaith mae Gelli Aur wedi'i wneud, ac efallai y gallai hynny fynd ymhellach. A ellid edrych arno mewn ffordd sy'n gweithio i ffermwyr, sy'n gwneud synnwyr yn economaidd ac sy'n dechrau edrych tuag at ddulliau sy'n fwy cylchol yn economaidd? O ran arallgyfeirio ffermydd, gallai cyllid natur fod yn ddull posibl. Awgrymodd David fod dulliau sy'n cael eu gyrru gan y farchnad wedi'u cynnwys yn un o'r argymhellion, sy'n dweud 'darparu cyllid ar gyfer ymchwil a datblygu cynhyrchion a chanlyniadau sy'n gysylltiedig â chydbwyso maethynnau a lleihau mewnbynnau ffosffad'. Rydym yn teimlo ei bod yn bwysig bod cyllid ar gael i ddatblygu ymchwil ar gyfer technolegau ac arloesiadau newydd a all helpu i gydbwyso maethynnau ar draws y dalgylchoedd.

37. Gofynnodd Gail am yr adborth a gafwyd gan ffermwyr neu'r undebau ffermio am yr adroddiad a'r argymhellion. Cadarnhaodd David fod yr undebau ffermio yn cael eu cynrychioli yn y grŵp gorchwyl a gorffen ac mai nhw oedd cyd-awduron yr adroddiad. Awgrymodd Gail y byddai'n braf gweld ychydig mwy o fanylion am yr adroddiad hwnnw efallai.

38. Cytunodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, â'r sylwadau cynharach am y dryswch ynghylch y gwahanol grwpiau, a galwodd am well dealltwriaeth am bwy sy'n gwneud beth ac ar ba lefel, y strwythur, a pha wybodaeth sy'n cael ei rhannu a sut. Mae Dŵr Cymru yn awyddus i gydweithio, ond mae deall pa arbenigedd i'w gyfrannu i ba grŵp yn wirioneddol bwysig. Cytunodd Sarah â'r angen i ehangu'r cwmpas y tu hwnt i ffosffadau. O safbwynt dŵr yfed, mae mwy o baramedrau sy'n peri pryder a dylid eu hystyried ar sail dalgylch fel rhan o ddull gweithredol. Gofynnodd Sarah a fyddant yn parhau i fod yn fwrdd rheoli maethynnau, neu a oes cyfle i gyflwyno paramedrau eraill

megis halogion sy'n dod i'r amlwg neu bethau eraill megis plaladdwyr. Dywedodd Gail yr hoffem symud tuag at edrych ar y bygythiadau hynny sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt ddod yn wirioneddol anodd eu datrys. Soniodd Sarah fod gan Lywodraeth Cymru grŵp arall o'r enw'r Grŵp Halogion sy'n Dod i'r Amlwg, sydd â chynrychiolaeth o Dŵr Cymru.

39. Dywedodd Ieuan fod cynghori yn agwedd mor bwysig. Nid ydym am ddyblygu gwaith ond mae'n allweddol bod negeseuon yn gyson ac yn cael eu cefnogi gan yr un set o dystiolaeth.

40. Cydnabu Rachel y drafodaeth ddiddorol a soniodd am dalu am wasanaethau ecosystemau, talu am nwyddau cyhoeddus a chyfalaf naturiol – mae ceisio troi'r ymdrech yn rhagolygon realistig a all gynnal ein cymunedau gwledig yn hynod heriol. Cofiodd Rachel sgyrsiau o'r cyfarfod diwethaf ynghylch modelu System Gwybodaeth Ddaearyddol am Ddosbarthiad Ffynonellau (SAGIS), a gofynnodd a yw'r cynlluniau rheoli maethynnau yn dibynnu ar unrhyw dystiolaeth neu ddata o'r dull modelu hwnnw, yn enwedig o ystyried lefel yr ansicrwydd o allbynnau modelau. Cydnabu Gail nad oedd hi'n ymwybodol o'r sgwrs flaenorol, ond roedd yn cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch SAGIS. Cadarnhaodd Gail fod y byrddau rheoli maethynnau wedi defnyddio SAGIS i lywio eu cynlluniau rheoli maethynnau, ond maent yn bod yn rhagofalus ac yn cydnabod yr ansicrwydd. Hyd nes y bydd gennym well dealltwriaeth neu offeryn tebyg i Farmscoper sy'n addas ar gyfer Cymru, dyma'r hyn yr ydym yn dibynnu arno ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Ieuan fod Bannau Brycheiniog a Phartneriaeth Dalgylch Wysg hefyd yn dibynnu ar y SAGIS honno. Fodd bynnag, maent yn gwbl ymwybodol o'r cyfyngiadau hynny wrth ddefnyddio dull modelu SAGIS. Mae angen mwy o ddata ar lawr gwlad arnom, ac rydym yn ffodus bod nifer o'n partneriaid wedi bod yn gweithio gyda ffermwyr ac wedi gallu casglu rhywfaint o ddata. Rydym hefyd yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn cadw llawer o ddata – byddai'n wych pe bai modd ei anonymeiddio a'i ddefnyddio i wneud y modelau hyn yn fwy cadarn. Yn y pen draw, mae'r modelau ond cystal â'r data sy'n cael ei fwydo iddynt. Dywedodd Ieuan fod y cynlluniau rheoli maethynnau yn ddogfennau byw ac y byddant yn cael eu diweddaru wrth i dystiolaeth newydd ddod i'r amlwg.

41. Gofynnodd Rhys a yw'r cynlluniau drafft yn gyhoeddus er mwyn gwneud sylwadau a rhoi adborth arnynt. Dywedodd Gail nad ydynt yn gyhoeddus ar hyn o bryd, ond yn achos y tri dalgylch yng ngorllewin Cymru, cytunwyd ar sail y cynlluniau a rhannwyd y sylfaen dystiolaeth gyda'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys yr undebau ffermio. Yn anffodus, ni chawsom unrhyw adborth ysgrifenedig gan y sector amaethyddol, ond cadarnhaodd holl aelodau eraill y byrddau rheoli maethynnau y cynlluniau, ac roeddent yn hapus â'r cynnwys. Er bod rhai newidiadau i'w gwneud. Dywedodd Rachel y byddai'n fuddiol pe bai'r cynlluniau drafft hynny'n cael eu rhannu â'r is-grŵp hwn. Ymddiheurodd Rachel os nad yw wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar adroddiad a dywedodd fod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi dominyddu'r ffrydiau gwaith. Os oes unrhyw beth yr hoffech i ni wneud sylwadau arno drwy'r grŵp hwn, yna byddwn yn sicr yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny. Dywedodd Gail ei bod yn hapus i rannu'r tri adroddiad dalgylch ar gyfer gorllewin Cymru gyda'r grŵp hwn, ond nododd eu bod wedi datblygu'n sylweddol ers hynny. Rydym nawr yn gweithio ar y gwahanol gynlluniau gweithredu, ond os gallwch roi rhywfaint o adborth amserol, byddai hynny'n sicr yn cael ei groesawu. Cytunodd Gail i anfon copïau o'r dogfennau at Bronwen i'w dosbarthu.

***AP 20 Ionawr 02: Gail Pearce-Taylor i anfon copïau o dri adroddiad dalgylch gorllewin Cymru at Bronwen Martin, CNC, fel y gellir eu rhannu gyda'r grŵp.***

***AP 20 Ionawr 03: Gail Pearce-Taylor i rannu copi o Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gyda rhanddeiliaid y byrddau rheoli maethynnau er mwyn codi ymwybyddiaeth.***

42. Gofynnodd Rachel i Lywodraeth Cymru a oedd adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Masnachu Maethynnau wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Dywedodd Catherine Osborne, Llywodraeth Cymru, nad oedd wedi'i gyhoeddi ar y wefan, ond ei fod wedi'i rannu ag uwch-gydweithwyr polisi. Cafodd yr adroddiad ei ystyried fel rhan o'r gwaith ar faethynnau ar ei newydd wedd ar gyfer bioamrywiaeth a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar egwyddorion buddsoddi cynaliadwy, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr. Cofiodd Rachel ei bod hi a Gareth Parry i fod i gyflwyno cam gweithredu ar yr adroddiad hwnnw a oedd yn ymwneud â'r grŵp hwn. Fodd bynnag, maent yn amharod i wneud hynny fel aelodau allweddol o'r grŵp hwnnw gan nad yw wedi'i gyhoeddi.

43. Soniodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, fod Cyswllt Ffermio wedi cyhoeddi ei adroddiad yn ddiweddar yn seiliedig ar dros 3,000 o samplau pridd ledled Cymru. Mae'r canlyniadau'n ddiddorol ac yn dangos bod gennym waith i'w wneud o ran cael iechyd pridd i'r safon y mae angen iddo fod. Dywedodd Einir y byddai'n rhannu'r adroddiadau gyda Bronwen i'w rhannu gyda'r grŵp.

***AP 20 Ionawr 04: Einir Williams, Cyswllt Ffermio, i rannu dolenni i adroddiadau pridd Cyswllt Ffermio.***

44. Soniodd Einir hefyd fod cyllideb bellach wedi'i dyrannu i Cyswllt Ffermio a'u bod yn bwriadu cynnal grwpiau Agrisgôp eto'r flwyddyn nesaf, yn ogystal â'r gwasanaeth cynghori. Mae trafodaethau gyda rhanddeiliaid yn sicr yn cael eu croesawu, oherwydd mae'r cyfle gennym i gydweithio ar ddigwyddiadau neu ymgyrchoedd.

45. Trafododd y grŵp y ffyrdd posibl y gallent helpu i hyrwyddo Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig a sut y gellid blaenoriaethu'r argymhellion.

## Eitem 4. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: adolygiad pedair blynedd

46. Ymunodd Dr Susannah Bolton, cadeirydd annibynnol, â'r cyfarfod i roi diweddariad llafar byr ar gynnydd yr adolygiad pedair blynedd. Rydym yn gwneud cynnydd da, er gwaethaf yr amserlen fer iawn. Rydym wedi gwneud gwaith ymgysylltu adeiladol ac wedi derbyn llawer o ddeunydd y gallwn weithio ag ef. Rydym nawr yn gweithio ar ddrafft yr adolygiad ac rydym ar y trywydd iawn i'w gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru fel y bwriadwyd erbyn 31 Mawrth. Rhybuddiodd Susannah fod llawer iawn o waith i'w wneud yn y cyfamser a thalodd deyrnged i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru am gefnogi'r broses.

47. Atgoffodd Susannah y grŵp fod adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael yn rhoi syniad clir inni o effeithiolrwydd y rheoliadau. Fodd bynnag, mae rhai cyfyngiadau sylweddol, yn enwedig y ffaith bod y rheoliadau wedi'u cyflwyno'n raddol a bod llawer o'r gwaith wedi bod yn rhy ddiweddar i allu gwneud unrhyw newid sylweddol. Mae'r gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid rydyn ni wedi'i wneud wedi bod yn rhan bwysig iawn o'r broses a bydd hyn yn sicr yn cael ei adlewyrchu a'i gydnabod.

48. Gofynnodd Rhys a oedd angen unrhyw beth pellach ar Susannah gan y grŵp. Dywedodd Susannah y gallai fod angen ychydig o waith dilynol, ond rydym bellach yn tynnu at y terfyn gyda'r broses o sicrhau bod y canfyddiadau yn cael eu hadlewyrchu mor gryno a chlir â phosibl. Diolchodd Rhys i Susannah am ymgysylltu â'r grŵp hwn a chydnabu ei gwaith caled yn cynhyrchu'r adroddiad hwn.

49. Dywedodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, eu bod yn falch iawn bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu, os na all tenantiaid gydymffurfio ag unrhyw un o'r Gweithredoedd Cyffredinol yn y cynllun cymorth sydd i ddod, na fydd rhaid iddynt ei wneud, ac mae hynny'n cynnwys y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Trafododd Dennis yr heriau o weithio ar ddatrysiad rhesymol a realistig. Cydnabu Susannah y sefyllfa anodd i denantiaid mewn amgylchiadau penodol a diolchodd i Dennis am drafod y materion hyn gyda hi.

## Eitem 5. Unrhyw faterion eraill

50. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun, 24 Chwefror 2025. Bydd y cyfarfod hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno dull modelu SAGIS.

51. Anogir aelodau i awgrymu eitemau ar gyfer yr agenda a phynciau trafod posibl. Anfonwch nhw at Bronwen Martin, CNC.

52. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.